



Hoff ddilledyn **Katie** oedd ei chlogyn.

Roedd clogyn **Katie** yn **oren** gyda gliter drosto a'r llythyren **K** yn fawr yng nghanol y clogyn.

Cafodd **Katie** y clogyn yn anrheg gan ei hen ewythr a oedd gyda barf gwyn yr holl ffordd i lawr at ei fol mawr crwn.

Roedd gan ei hen ewythr glogyn ei hun a oedd yn **las** a **gwyrd**. Er hynny, yn wahanol i Katie, doedd ei hen ewythr ddim yn gwisgo'r clogyn yn aml.

Byddai **Katie** yn gwisgo ei chlogyn i'r parc...
i'r ysgol...

i weld y deintydd...

ac hyd yn oed i'r gwely.



Byddai mam **Katie** yn cwyno o hyd bod angen golchi'r clogyn **oren** ...

"Katie fach, plis tynna'r clogyn yna, mae'n dechrau drewi,"
byddai mam **Katie** yn dweud.

Ond, roedd **Katie** yn hoffi'r staen **gwyrdd** ar waelod ei chlogyn a oedd yn ei hatgoffa o pan sgoriodd gôl yn erbyn Joe yn y parc.

Roedd **Katie** yn hoffi'r staen **coch** ar ochr chwith ei chlogyn a oedd yn ei hatgoffa o pan dynnodd hi ei dant gyntaf.

Roedd **Katie** yn hoffi'r staen **brown** ar dop ei chlogyn a oedd yn ei hatgoffa o pan gollodd hi siocled ar hyd ei chlogyn.

Roedd **Katie** a'i chlogyn yn anwahanadwy.

Ble bynnag roedd **Katie** yn mynd roedd y clogyn **oren** yn mynd hefyd.

Hyd yn oed ar ddiwrnod gwisg ffansi **Ysgol Glan-y-Blodau**.

Roedd hi'n ddiwrnod gwisg ffansi yn **Ysgol Glan-y-Blodau** heddiw ac roedd **Katie** wedi penderfynu ers wythnosau beth roedd hi am ei wisgo.

Roedd hi am wisgo ei chlogyn **oren** – wrth gwrs – a mwgwd o gwmpas ei llygaid er mwyn bod fel archarwr.

Archarwr Arbennig Katie oedd ei henw am y diwrnod ac roedd hi'n edrych ymlaen yn fawr at redeg o gwmpas cae chwarae'r ysgol er mwyn dal y bobl ddrwg i gyd.

Pan gyrhaeddodd **Katie Ysgol Glan-y-Blodau** roedd y dosbarth yn llawn plant yn eu gwisg ffansi.

Roedd **Tesni** wedi gwisgo fel **teigr**.

Roedd **Daniel** wedi gwisgo fel **dyn tân**.

Roedd **Seren** wedi gwisgo fel **seren**.

Ac roedd **Rhys** wedi gwisgo fel **robot**.



Ond roedd un plentyn wedi anghofio ei wisg ffansi.



Roedd **Hywel** wedi anghofio ei wisg ffansi ac yn gwisgo ei wisg ysgol yn lle.

Dechreuodd rhai yn y dosbarth chwerthin arno.

Edrychodd **Hywel** yn drist iawn.

Teimlodd **Katie** yn wael bod pawb yn chwerthin ar **Hywel**.

Cerddodd **Katie** draw at **Hywel** gan gynnig syniad gwych iddo.

“Hoffet ti wisgo fy nghlogyn?” holodd **Katie** wrth **Hywel**.

Roedd **Hywel** methu credu ei glustiau. Roedd **Katie** yn cynnig ei chlogyn arbennig iddo, y clogyn nad oedd hi byth yn ei dynnu.

“Gyda fy nghlogyn gallit ti fod yn archarwr, a gyda fy mwgwd galla’ i fod yn ddihiryn,” cynigodd **Katie** wrth **Hywel**.

Nodiodd **Hywel** ei ben yn frwd. Lledaenodd wên ar hyd ei wyneb.
Roedd e mor hapus oherwydd caredigrwydd **Katie**.

Tynnodd **Katie** ei chlogyn **oren** a throdd wynebau pawb yn y dosbarth gan edrych yn syn arni.



Doedd neb erioed wedi gweld **Katie** heb ei chlogyn.
Edrychodd pawb arni wrth iddi roi ei chlogyn i **Hywel**.



Roedd **Katie** yn edrych yn wahanol iawn heb ei chlogyn, ond yn fwy na hynny roedd hi'n gwenu o glust i glust am ei bod hi wedi gallu helpu **Hywel**.

Gwisgodd **Hywel** y clogyn gyda balchder a chwaraeodd **Katie** a **Hywel** gyda'i gilydd trwy'r dydd, gan gynnwys chwarae cuddio, chwarae tag, a chwarae ar y ffrâm ddringo.

Ar ddiwedd y diwrnod yn yr ysgol, rhoddodd **Hywel** y clogyn yn ôl i **Katie** gan ddiolch iddi.

O'r diwrnod hwnnw ymlaen roedd **Katie** a **Hywel** yn ffrindiau gorau am byth bythoedd.

Ac o'r diwrnod hwnnw ymlaen hefyd gwrthododd **Katie** dynnu ei chlogyn er mwyn i'w mam ei olchi.



Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans